OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1215

Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

RHAN 5

GORFODI A THROSEDDAU

Pwerau swyddogion awdurdodedig

19. Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan y Rheoliadau hyn—

(a) arolygu unrhyw garcas buchol neu garcas mochyn neu ran o garcas o'r fath, neu unrhyw garcas neu ran o garcas y mae'r swyddog yn amau'n rhesymol ei fod yn garcas buchol neu garcas mochyn neu ran o garcas o'r fath;

(b) archwilio unrhyw gofnod y mae'n ofynnol i weithredwr ei gadw o dan reoliad 11 neu 16 neu o dan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn neu Reoliad Gweithredu'r Comisiwn, a phan ddefnyddir cyfrifiadur i gadw'r cofnod hwnnw, cael mynediad i unrhyw gyfrifiadur a chyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig, a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r cofnod hwnnw, ac arolygu a gwirio gweithrediad y cyfryw gyfrifiadur a chyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig;

(c) ei gwneud yn ofynnol i gopïau neu ddarnau o unrhyw gofnod o'r fath gael eu dangos a, pan ddefnyddir cyfrifiadur i gadw'r cofnod hwnnw, ei gwneud yn ofynnol i'r cofnod gael ei ddangos ar ffurf a fydd yn caniatáu iddo gael ei gludo ymaith; a

(d) dal gafael ar unrhyw gofnod o'r fath y mae gan y swyddog reswm dros gredu y gall fod yn angenrheidiol fel tystiolaeth mewn achos o dan y Rheoliadau hyn.